| | |
|---|---|
| **Adroddiad i'r:** | Pwyllgor Llywodraethu Corfforaethol |
| **Dyddiad y Cyfarfod:** | 28 Medi 2016 |
| **Aelod / Swyddog Arweiniol:** | Ivan Butler - Pennaeth Archwilio Mewnol |
| **Awdur yr Adroddiad:** | Ivan Butler - Pennaeth Archwilio Mewnol |
| **Teitl:** | Diweddariad Diogelu Corfforaethol |

**1. Am beth mae’r adroddiad yn sôn?**

Mae'r adroddiad hwn yn rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf am y cynnydd wrth weithredu'r cynllun gweithredu sy'n cyd-fynd â’r adroddiad Archwilio Mewnol ar Ddiogelu Corfforaethol ym mis Awst 2015.

**2. Beth yw'r rheswm dros lunio’r adroddiad hwn?**

Bwriad yr adroddiad hwn yw darparu gwybodaeth ar sut mae'r Cyngor yn gweithredu gwelliannau i ddiogelu corfforaethol ers cyhoeddi adroddiad Archwilio Mewnol yn 2015. Rhoddodd yr adroddiad archwilio 'Sicrwydd Isel', a uwchraddiwyd i ‘Sicrwydd Canolig' pan wnaethom adrodd ar ein hadolygiad dilynol ym mis Mawrth 2016. Gofynnodd y Pwyllgor Llywodraethu Corfforaethol am adroddiad cynnydd i sicrhau bod y materion yn cael sylw.

**3. Beth yw'r Argymhellion?**

Y Pwyllgor i adolygu cynnydd ac i benderfynu a oes angen adroddiad cynnydd pellach.

**4. Manylion yr Adroddiad**

Atodiad 1 yw’r adroddiad dilynol i’r Archwiliad Mewnol, sy'n dangos bod cynnydd da yn dal i gael ei wneud wrth weithredu'r cynllun gweithredu ac mae’r sgôr sicrwydd yn parhau i fod yn ‘Ganolig’.

Gwnaed gwelliannau mewn rheoli risg y gwasanaeth, mesurau i wella rheolaethau ar gyfer yr asesiadau o atgyfeiriadau Trefniadau Diogelu rhag Colli Rhyddid (DoLS), ac yn y Panel Diogelu Corfforaethol.

Rydym yn dal i roi sylw i rai meysydd, yn enwedig mewn perthynas â datblygu hyfforddiant staff a sicrhau bod gweithwyr ac aelodau etholedig yn ymwybodol o fodolaeth y Polisi Diogelu Corfforaethol, y mae angen ei ddiwygio. Mae gwaith hefyd yn mynd rhagddo i wella sgiliau a gwybodaeth y Rheolwyr Diogelu Dynodedig (DSMs) drwy ddatblygu fframwaith cymwyseddau a rhaglen hyfforddi.

Un mater arall a godwyd yn ein hadroddiad dilynol yw'r angen i fynd i'r afael â phresenoldeb isel aelodau etholedig yn yr hyfforddiant gorfodol ar ddiogelu i sicrhau bod ganddynt ddigon o ymwybyddiaeth o ddiogelu. Mae’r Gwasanaethau Democrataidd yn gobeithio cyflwyno modiwlau e-ddysgu yn y dyfodol i wella mynediad at hyfforddiant ar gyfer aelodau etholedig.

5. **Sut mae'r penderfyniad yn cyfrannu at y Blaenoriaethau Corfforaethol?**
Amherthnasol - nid oes angen penderfyniad gyda'r adroddiad hwn.

6. **Faint fydd hyn yn ei gostio a sut y bydd yn effeithio ar wasanaethau eraill?**
Amherthnasol - nid oes angen penderfyniad gyda'r adroddiad hwn.

7. **Beth yw prif gasgliadau'r Asesiad o Effaith ar Gydraddoldeb (AEC) a gynhaliwyd ar y penderfyniad? Dylai'r templed o'r Asesiad o Effaith ar Gydraddoldeb wedi ei gwblhau fod wedi ei atodi i'r adroddiad**
Amherthnasol - nid oes angen penderfyniad gyda'r adroddiad hwn.

8. **Pa ymgynghoriadau a gynhaliwyd gyda'r Pwyllgor Archwilio ac eraill?**
Amherthnasol - nid oes angen penderfyniad gyda'r adroddiad hwn.

9. **Datganiad y Prif Swyddog Cyllid**
Amherthnasol - nid oes angen penderfyniad gyda'r adroddiad hwn.

10. **Pa risgiau sydd ac a oes unrhyw beth y gallwn wneud i'w lleihau?**
Amherthnasol - nid oes angen penderfyniad gyda'r adroddiad hwn.

11. **Pŵer i wneud Penderfyniad**
Amherthnasol - nid oes angen penderfyniad gyda'r adroddiad hwn.